Ysgol Tryfan

Grant Amddifadedd Disgyblion Ysgol Tryfan 2016/2017

Nod y Grant Amddifadedd Disgyblion yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu hwynebu a thrwy hynny sicrhau cyrhaeddiad cystal â'u cyd-ddisgyblion, beth bynnag fo'u gallu.
Y mae Ysgol Tryfan yn gwbl ymrwymedig i wneud defnydd llawn o'r GAD er mwyn cau'r bwlch hwn a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Fe wnaed hyn yn effeithiol gyda'r canran o ddysgwyr PYD sy'n cyflawni prif drothwy cyrhaeddiad CA4 yn cynyddu'n flynyddol dros y tair blynedd ddiwethaf - 2014=30% 2015=33% 2016=56%
Ond yn sicr mae'r her yn parhau o flwyddyn i flwyddyn, ac fe barhawn i flaenoriaethu'r gwaith hwn trwy ddatblygu nifer o strategaethau amrywiol gan gynnwys:

- **Tracio cynnydd unigolion yn effeithiol a thargedu cefnogaeth**
- **Darparu cefnogaeth bersonol ac anogaeth ddysgu i garfan o ddysgwyr sydd mewn angen, gan gynnwys mentora personol yn CA4.**
- **Targedu rhaglenni ymyrraeth effeithiol**
- **Targedu presenoldeb dysgwyr sydd mewn peryg o ymddieithrio a thrwy hynny dangyflawni mewn bywyd.**
- **Sicrhau mynediad at weithgareddau cyfoethogi, dileu unrhyw rwystrau ariannol i gyfranogi a darparu gweithgareddau cwricwlaidd a chyfleoedd allgyrsiol.**
- **Darparu gwersi ychwanegol, gwersi mewn grwpiau bychain a strategaethau eraill sydd wedi'u bwriadu i bersonoleiddio dysgu.**
- **Sicrhau nad yw diffyg adnoddau addysgol yn rhwystr i garfan benodol o ddysgwyr yn yr ysgol.**
- **Datblygu strategaethau sy'n cynnwys y teulu a'r gymuned.**
- **Gwreiddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac mewn dysgu ehangach i lais dysgwyr chwarae rhan lawn wrth oleuo penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg.**

Meysydd Allweddol	Gweithgaredd	Gwariant	Effaith
Lleihau'r bwlch rhwng presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion PYD a'r disgyblion eraill.	Hyfforddiant a strategaethau hyrwyddo ymddygiad da Datblygu'r defnydd o'r Uned Cynhwysiad gan roi sylw penodol i grwpiau o ddysgwyr. Cynyddu capasiti cefnogaeth yr Hafan trwy sicrhau cefnogaeth Uwch Gymhorthydd Cynhwysiad Datblygu a staffio strategaeth hyrwyddo presenoldeb dysgwyr PYD a hybu ymglymiad cartref. Amser penodol wedi ei neilltuo ar gyfer pob	**£42k +**	Gwella presenoldeb a chanlyniadau'r disgyblion perthnasol. Lleihau'r bwlch rhwng cyfradd presenoldeb dysgwyr PYD a'r rhai nad oes â hawl i BYD Gwelliant o ran data gwaharddiadau'r garfan dan sylw

	pennaeth blwyddyn a'r Pennaeth Cynorthwyol Lles er mwyn cefnogi'r garfan PYD yn benodol o ran cynnydd, presenoldeb ac ymglymiad cartref.		
Lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion PYD cymwys / mewn tlodi a'r disgyblion sydd heb fod yn gymwys ar gyfer PYD.	Buddsoddiad sylweddol o ran pynciau craidd CA4 – set ychwanegol ym ml.10 ac 11 ar darws y 4 pwnc. Ar ben hynny: Cefnogaeth Cymorthyddion ac Uwch Gymorthyddion Cefnogaeth Anogwr Dysgu CA4 Mentoriaid UDR Gwersi ac adnoddau ychwanegol Mathemateg CA4 a phynciau craidd eraill. Tracio a thargedu pwrpasol yn CA4 ar gyfer pob dysgwr gyda'r hawl i PYD: • Pob adran graidd wedi cael amser penodol i dracio a thargedu cyrhaeddiad PYD CA4 • Neilltuo amser y Cydlynydd ADY i deilwra a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr PYD • Gwaith tracio a thargedu penodol ar gyfer y dysgwyr PYD gan y Pennaeth Cynorthwyol Asesu	**£16,500 +**	Gwella sgiliau craidd dysgwyr PYD CA3. Cau'r bwlch rhwng perfformid y dysgwyr gyda'r hawl i PYD a'r gweddill yn y prif ddangosyddion CA4. Fel isafswm - Cyrraedd targed LLC o berfformiad TL2+ dysgwyr PYD CA4 dros dreigl yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

Hyrwyddo ymglymiad teuluol a chymunedol effeithiol	Targedu rhieni grŵp penodol o ddysgwyr i hyrwyddo cyfranogiad yn nysgu eu plant. Wedi ei glynu yn y strategaethau uchod. Cynllun Llofnod Teulu dan arweiniad y Pennaeth Cynorthwyol Lles a Phennaeth Bl.7		
	Cyfanswm	**£58,650 ++**	